

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Addysgu
Powys, Practis Deintyddol
Teuluol Llandrindod**

29 Medi 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Cyd-destun.....	4
3.	Crynodeb	5
4.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	12
5.	Methodoleg	14
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad ym Mhractis Deintyddol Teuluol Llandrindod yn Hen Neuadd y Dref, Stryd y Deml, Llandrindod, LD1 5DL, ar 29 Medi 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Teuluol Llandrindod yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd o arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydyn ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 5 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Teuluol Llandrindod yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llandrindod, Powys. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae Practis Deintyddol Teuluol Llandrindod yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, tair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd (sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol), a rheolwr y practis, sydd hefyd yn rheoli lleoliad arall sydd oddeutu 30 munud i ffwrdd yn y car.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol, gyda rhai opsiynau triniaeth breifat o fewn hyn.

3. Crynodeb

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod Practis Deintyddol Teuluol Llandrindod yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion. Roedd yr adborth a gawsom drwy ein holiadur cleifion yn unfrydol gadarnhaol. Mae IDH wedi sefydlu mecanweithiau i geisio adborth gan gleifion, ac roedd canlyniadau'r rhain yn cael eu defnyddio'n dda yn y practis hwn.

Ar y cyfan, gwnaethom ddarganfod tystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod tîm y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Gwnaethom ganfod staff gwybodus a oedd yn cynnal gweithdrefnau dadheintio gofalus mewn ystafell benodedig a oedd yn ymddangos yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Cawsom ein bodloni gyda'r trefniadau oedd ar waith i sicrhau bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y sampl o gofnodion gwnaethom edrych arnynt yn darparu tystiolaeth o ofal cleifion unigoleidig. Cawsom ein bodloni bod y systemau llywodraethu y gwelsom dystiolaeth ohonynt yn cyfrannu'n barhaus at gynnal safonau ansawdd o ran cadw cofnodion, ansawdd delweddu radiograff, a rheoli heintiau.

Gwnaethom ganfod bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith i gefnogi'r staff wrth redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae rheolwr y practis a'r staff yn elwa ar eu hagosrwydd i bractis IDH arall (deintyddfa breifat yn unig) sydd wedi'i leoli ar lawr cyntaf yr un adeilad. Mae'r trefniant hwn yn golygu bod modd trawsgyflenwi a chefnogi ei gilydd os oes angen, ac yn golygu bod yno niferoedd uwch o staff, sy'n cyfiawnhau darparu hyfforddiant yn fewnol.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod Practis Deintyddol Teuluol Llandrindod yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion. Roedd yr adborth a gawsom drwy ein holiadur cleifion yn unfrydol gadarnhaol. Mae IDH wedi sefydlu mecanweithiau i geisio adborth gan gleifion, ac roedd canlyniadau'r rhain yn cael eu defnyddio'n dda yn y practis hwn.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd naw holiadur atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Gwasanaeth ardderchog gan bawb. Diolch.”

Gofal gydag urddas

Dyweddodd pob un o'r naw ymatebydd i'r holiadur wrthym fod tîm y practis wedi rhoi croeso iddynt. Gwelsom staff yn bod yn gwrtais a chyfeillgar gyda chleifion. Roedd y prif fan aros ar wahân i ddesg y dderbynfa, a oedd yn golygu yn gyffredinol nad oedd y cleifion yn cael eu clywed wrth iddynt ddelio â staff yn y dderbynfa.

Gofal amserol

Nododd un ymatebydd i'r holiadur y bu yno oedi "*bach iawn*" ar adegau wrth aros i weld deintydd; nododd pob un o'r wyth ymatebydd eraill i'r holiadur nad oedd oedi wedi bod.

Ceir apwyntiadau yn y practis o 8.45am tan 5pm. Gwelsom dystiolaeth mewn nodiadau bod cleifion brys wedi cael eu gweld rhwng apwyntiadau arferol pan fo angen, a gwelsom enghraifft hefyd (wrth wirio cofnodion ar hap) o un claf a gafodd apwyntiad ychwanegol yn unfryd i drafod opsiynau cynllun triniaeth. Gwnaethom gymeradwyo hyn fel enghraifft o arfer da.

Cadw'n iach

Gwnaethom sylwi ar daflenni'n hyrwyddo iechyd yn yr ystafell aros a'r dderbynfa. Roedd hefyd llyfryn wedi'i anelu'n benodol at hyrwyddo iechyd y geg i blant.

Dywedodd y naw ymatebydd i'r holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwelsom gynlluniau triniaeth gorffenedig yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym.

Gofal unigol

Roedd taflen wybodaeth i gleifion ar gael, er y dywedwyd wrthym mai copi dros dro oedd yr un a welsom, a oedd wedi'i greu gan reolwr y practis i'w ddefnyddio hyd nes i fwy o gopiâu lliw o ddogfennau wedi'u hargraffu'n broffesiynol ar gael i'w defnyddio eto.

Roedd proses gwyno ar waith, a oedd yn cael ei dangos ar boster A4 yn agos i ddesg y dderbynfa. Roedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl iawn mewn ffont du a gwyn bach. Mae'n ganfyddiad cadarnhaol bod cleifion yn cael eu darparu â'r lefel hon o fanylder, a hefyd yn gadarnhaol bod y ddogfen yn unol â safonau Cymru ('Gweithio i Wella' a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008).¹ Fodd bynnag, nid oedd y poster yn amlwg ac roedd yn anodd ei ddarllen. Gwnaethom drafod hyn am hir gyda rheolwr y practis ac aelod arall o uwch-dîm IDH, a gytunodd i wneud y wybodaeth hon yn fwy hygyrch drwy ddefnyddio ffont mwy mewn lliw, a hefyd drwy ystyried lleoli'r poster yn yr ystafell aros.

Mae IDH wedi sefydlu mecanweithiau er mwyn gwahodd adborth gan gleifion drwy system neges destun. Dywedodd rheolwr y practis wrthym sut mae'r system hon yn cael ei monitro a bod tîm y practis yn trafod yr adborth maent yn ei dderbyn. Dywedwyd wrthym eu bod, ar gyfartaledd, yn cael sgôr boddhad cleifion o 4.8 allan o 5 posibl ar hyn o bryd. Yn ogystal â'r system pŵl piniwn drwy neges destun gyfredol, mae ffurflenni sylwadau i gleifion ar gael iddynt eu llenwi, er i reolwr y practis ddweud wrthym nad yw hwn yn ddull poblogaidd o roi adborth ymysg y cleifion. Byddai'n ddefnyddiol iawn i'r cwmni (IDH) ystyried sut y gallant ddenu adborth gan ystod ehangach o boblogaeth eu cleifion na'r sawl maent yn cysylltu â nhw ar hyn o bryd, drwy opsiynau adborth electronig ac ysgrifenedig.

¹ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, gwnaethom ddarganfod tystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod tîm y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwnaethom ganfod staff gwybodus yn cynnal gweithdrefnau dadheintio gofalus mewn ystafell benodedig a oedd yn ymddangos yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Cawsom ein bodloni gyda'r trefniadau oedd ar waith i sicrhau bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y sampl o gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn darparu tystiolaeth o ofal cleifion unigoledig. Cawsom ein bodloni bod y systemau llywodraethu y gwelsom dystiolaeth ohonynt yn cyfrannu'n barhaus at gynnal safonau ansawdd o ran cadw cofnodion, ansawdd delweddau radiograff, a rheoli heintiau.

Gofal diogel

Mae'r practis wedi'i leoli ar lawr daear hen neuadd y dref yng nghanol Llandrindod. Mae yna lawer o nodweddion cyfnod drwy'r adeilad, fel cwareli ffenestr gwydr lliw. Mae'r ffenestri'n fawr a'r nenfydau'n uchel, sy'n creu amgylchedd golau ac awyrog. Mae'r adeilad yn rhestredig, ac mae ardal y practis yn cael ei phrydlesu gan berchennog yr adeilad. Gwnaethom nodi ei bod yn ymddangos fel bod gwaith cyson yn cael ei wneud o ran cynnal a chadw ac addurno'r adeilad, am i ni weld ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda drwyddo draw.

Roedd contract casglu a gwaredu gwastraff ar waith, a chawsom ein bodloni gyda'r trefniadau hyn. Gwnaethom nodi bod angen biniau sy'n agor â phedal droed yn y ddwy ystafell driniaeth, yn lle'r biniau presennol sy'n agor â llaw, ond roedd rheolwr y practis yn gallu cadarnhau bod y rhain wedi eu harchebu'n barod.

Roedd contract ar waith ar gyfer profi teclynnau trydanol cludadwy yn rheolaidd (profion PAT), a gwelsom dystiolaeth bod hyn wedi'i wneud yn ddiweddar.

Roedd ystafell ddadheintio benodedig a oedd yn lân, taclus a threfnus, fel bod y llyf yn yr ystafell yn dilyn yr arferion gorau, fel y cynghorir gan ganllawiau Cymru

(WHTM01-05²). Gwnaethom siarad â staff nyrsio deintyddol ynglŷn â'r gweithdrefnau dadheintio, a gwnaethom hefyd eu harsylwi yn glanhau a phrosesu offer. Roedd y staff nyrsio deintyddol yn nodedig o hyderus wrth siarad am weithdrefnau, a gwnaethom eu harsylwi yn gwneud gwaith dadheintio cymwys. Roedd llyfrau log, wedi'u cadw'n dda, i gofnodi'r gwiriadau a wnaethpwyd i sicrhau bod yr offer sterileiddio yn gweithio i'r ansawdd a ddisgwylir. Cawsom ein bodloni gyda phob agwedd ar brosesau dadheintio yn y practis hwn.

Gwnaethom nodi bod trefniadau ar gyfer storio meddyginiaeth yn ddiogel ac yn foddhaol. Cadwyd meddyginiaeth frys yn ddiogel o fewn bagiau argyfwng wedi'u selio, ac roedd y rhain yn cael eu rhoi dan glo pan oedd y practis ar gau. Gwnaethom weld cofnodion hyfforddi a oedd yn dystiolaeth bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant blynyddol mewn gweithdrefnau argyfwng ac adfywio cardio-pwlmonaidd, a chadarnhaodd rheolwr y practis ei bod hi'n bryd i hwn gael ei adnewyddu eto mewn sesiwn i holl staff y practis yn ystod wythnos gyntaf Hydref 2015. Yn ystod y sesiwn hon, sicrhaodd rheolwr y practis i ni fod y staff yn cael y cyfle i hyfforddi gyda'r bagiau argyfwng sy'n cynnwys yr holl gyfarpar er mwyn iddyn nhw gael y cyfle i ddod yn gyfarwydd a chyfforddus gyda'r cynnwys pe byddai eu hangen.

Roedd IDH wedi cymryd awenau'r practis ychydig dros ddeuddeg mis yn ôl, ac yn yr amser hwn roeddent wedi prynu nifer o ddarnau newydd o offer, gan gynnwys cywasgydd newydd ac awtoclafau newydd³. Roedd y cyfarpar newydd yn gweithio'n dda felly, ac roedd wedi cael ei gomisiynu i'w ddefnyddio, er nad oedd eto wedi dod yn rhan o'r rhaglen flynyddol reolaidd o waith cynnal a chadw. Gwnaethom weld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n dangos bod aelod newydd o staff wedi derbyn hyfforddiant cynefino ar sut i ddefnyddio'r gwahanol gyfarpar a pheiriannau sy'n angenrheidiol wrth ddarparu gofal a thriniaeth ddeintyddol yn y practis mewn modd diogel.

² Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Adolygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

³ Siambwr bwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

Gwnaethom weld dogfennaeth oedd yn cadarnhau bod peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Yn ogystal â hyn, roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi derbyn hyfforddiant digonol yn ddiweddar i gyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y gweithdrefnau hyn. Roedd y ddogfennaeth a threfniadau ysgrifenedig eraill sydd yn ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 hefyd ar gael, wedi'u diweddarau, ac mewn cyflwr da.

Roedd cofnodion hyfforddiant ar gael ar gyfer pob aelod o staff, a oedd yn cadarnhau bod pawb wedi cyflawni peth hyfforddiant ym maes diogelu, yn bennaf drwy becynnau e-ddysgu ar-lein. Gwnaethom hefyd weld bod yno bolisiâu diogelu plant ac oedolion, ac roedd trefniadau lleol, fel rhifau cyswllt ar gyfer y gweithwyr proffesiynol lleol y byddai angen cysylltu â nhw pe byddai pryderon diogelu, wedi cael eu cynnwys yn y polisi er mwyn iddynt fod mewn cyrraedd hawdd i'r staff. Roedd gan y ddau ddeintydd wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf. Roedd gan yr holl staff eraill sydd yn ymwneud â gofal clinigol wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u cyflawni o fewn y tair blynedd diwethaf.

Gofal effeithiol

Roedd tystiolaeth bod archwiliadau rheolaidd sy'n edrych ar ansawdd cadw cofnodion, ansawdd delweddau radiograff, a rheoli heintiau wedi bod ar waith. Gwnaethom nodi bod rheolwr y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar gan ddefnyddio dull archwilio sy'n cael ei adnabod yng Nghymru (am eu bod yn gydnaws â safonau a chanllawiau Cymru). Gwnaethom gymeradwyo hyn, ond gwnaethom awgrymu y gallai hyn gael ei gyflawni gan holl staff y practis, er mwyn rhoi cyfle pellach i'r tîm cyfan ddatblygu ac fel cyfraniad at fodloni anghenion eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion a chanfod eu bod o ansawdd uchel ar y cyfan. Roedd y nodiadau yn bersonol ac yn berthnasol i'r driniaeth a oedd wedi'i darparu. Gwnaethom hefyd nodi bod rhai esiamplau pan oedd un deintydd wedi cyfeirio yn ôl at radiograffau blaenorol er mwyn sicrhau dilyniant gofal ac i amddiffyn y claf rhag datguddiadau diangen. Gwelsom gynlluniau triniaeth ysgrifenedig, a dywedwyd wrthym fod y practis yn ystyried cynllun triniaeth fel dogfen bwysig yng ngofal y cleifion gyda nhw.

Gwnaethom nodi yn y sampl o gofnodion nad oedd y cyfiawnhad dros gymryd radiograff yn ddigonol bob tro; yn benodol, nid oeddem yn gallu pennu bob amser pam fod radiograffau wedi'u cymryd, ac nid oedd y rheswm dros leoliad y ddelwedd yn glir bob tro chwaith.

Argymhelliad

Dylid cofnodi'r cyfiawnhad dros gymryd radiograff mewn mwy o fanylder nag y mae ar hyn o bryd.

Pan oedd deintyddion wedi gweinyddu anesthetig lleol i gleifion fel rhan o'u triniaeth, gwelsom nad oedd swp a dyddiad dod i ben y feddyginiaeth yn cael eu cofnodi bob tro. Efallai y bydd angen cael gafael ar y wybodaeth hon pe bai adwaith niweidiol yn digwydd, ac felly mae angen y gallu i olrhain yr holl wybodaeth hon.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i rifau swp a dyddiadau dod i ben yr holl feddyginiaeth sy'n cael ei gweinyddu i gleifion gael eu cofnodi'n llawn yn eu nodiadau.

Nid oedd y nodiadau a welsom yn cynnwys llawer o enghreifftiau o gleifion oedd angen cyngor ar roi'r gorau i ysmegu, ac felly nid oeddem yn gallu pennu a oedd hyn yn cael ei wneud yn gyson. O ganlyniad, gwnaethom drafod yr angen yn gyffredinol i'r deintyddion gefnogi'r cleifion i wneud penderfyniadau iachach drwy roi cyngor byr ar roi'r gorau i ysmegu lle bo'n briodol a sicrhau bod hyn ac asesiadau risg canser yn cael eu cofnodi yn y nodiadau. Mae hyn yn unol â 'Delivering Better Oral Health: an evidence-based toolkit for prevention'.⁴

⁴ Mae 'Delivering Better Oral Health: an evidence-based toolkit for prevention' yn ddogfen gyfarwyddyd genedlaethol gydag ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth i helpu timau deintyddol wella iechyd y geg eu cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom ganfod bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith i gefnogi'r staff wrth redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae rheolwr y practis a'r staff yn elwa ar eu hagosrwydd i bractis IDH arall (deintyddfa breifat yn unig) sydd wedi'i leoli ar lawr cyntaf yr un adeilad. Mae'r trefniant hwn yn golygu bod modd trawsgyflenwi a chefnogi ei gilydd os oes angen, ac yn golygu bod yno niferoedd uwch o staff, sy'n cyfiawnhau darparu hyfforddiant yn fewnol.

Mae rheolaeth y practis IDH hwn yn cael ei rhannu gyda phractis arall yn Nhrefyclo, tref fach ym Mhowys sydd oddeutu 19 milltir i ffwrdd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei bod hi'n gallu ymdopi â'r trefniant hwn a'i bod yn gallu lleoli ei hun yn y naill leoliad neu'r llall am y diwrnod ond dal i fod yn hygyrch ac yn gallu ymweld â'r practis arall yn hawdd os byddai angen ei phresenoldeb yno. Dim ond ers haf 2015 mae'r trefniant penodol hwn o ran rheoli'r practis wedi bod ar waith. Yn ôl pob golwg, roedd cyfrifoldebau rheoli fel cyfarfodydd tîm, gwerthusiadau staff a chyfnodau prawf staff (pan fo'n berthnasol) yn gyfoes, a gwelsom nodiadau a chofnodion ysgrifenedig a oedd yn dangos tystiolaeth o hyn.

Gwelsom dîm staff wrth eu gwaith a oedd yn ymddangos yn hapus ac yn gymwys wrth gyflawni eu rolau. Roedd tîm y practis (nyrsys deintyddol a deintyddion) wedi bod yn eithaf sefydlog, gyda rhai aelodau o staff wedi bod yno ers nifer o flynyddoedd. Roedd cyfathrebu agored a chyfeillgar rhwng holl aelodau'r tîm drwy gydol ein hymweliad.

Mae'r practis i gyd ar y llawr daear o fewn adeilad sy'n cael ei rannu. Mae practis deintyddol arall i fyny'r grisiau, sydd hefyd yn berchen i IDH, ac sy'n cael ei redeg ar wahân fel practis preifat. Er nad yw cleifion yn cael eu rhannu rhwng y ddau bractis, mae'r staff yn gallu defnyddio ei gilydd fel adnodd pan mae'n bosib. Er enghraifft, mae staff yn y ddau bractis yn gallu darparu cymorth cyntaf i'r ddau bractis, ac os bydd rheolwr y practis arferol yn absennol, bydd rheolwr y practis preifat yn siarad â chleifion sydd am fynegi pryderon. Mae dyletswyddau swyddog tân yn cael eu rhannu rhwng tîm staff y practis preifat a phractis y GIG yn ogystal. Gwnaeth ein harsylwadau anffurfiol awgrymu perthynas gyfeillgar rhwng y ddau dîm o staff.

Edrychom ar sampl o ffeiliau staff a gweld amrywiaeth o dystysgrifau hyfforddi sy'n berthnasol i rolau'r unigolion, ac roedd y rhain wedi'u cyflawni'n ddiweddar. Gwnaethom gadarnhau bod gan y ddau ddeintydd gofrestrriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yswiriant indemniad dilys. Roedd gan y

nyrsys deintyddol cymwysedig gofrestrïad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd.

Roedd cofnodion y staff yn ein galluogi i gadarnhau bod yno gofnodion o'r statws imiwneiddiad hepatitis B ar gyfer yr holl aelodau staff sy'n ymwneud â gwaith clinigol yn y practis. Fodd bynnag, mae yna ganllawiau sy'n amlinellu'r angen i imiwneidd a statws staff gael ei wirio mewn perthynas â heintiau eraill a gludir yn y gwaed, ac felly gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau bod gwiriadau eraill mewn perthynas â hepatitis C a HIV ar waith, yn unol â chanllawiau'r GIG ar gliriadau iechyd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.⁵

Roedd gan rheolwr y practis gyfrifoldeb i gynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer y nyrsys deintyddol a'r derbynnnydd. Dywedwyd wrthym fod adolygiadau gan gymheiriaid ar gael i'r deintyddion drwy aelodau o dîm llywodraethu clinigol IDH, sydd â chyfrifoldeb dros yr ardal, a bod adolygiad yn digwydd bob chwe mis, os nad yn amlach.

⁵ Cylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 086, Health Clearance for Tuberculosis, Hepatitis B, Hepatitis C and HIV: New Health Care Workers (HCWs)

5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁶ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011⁷. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Teuluol Llandrindod yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Teuluol Llandrindod

Dyddiad yr Arolygiad: 29 Medi 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol					
10.	<i>Dylid cofnodi'r cyfiawnhad dros gymryd radiograff mewn mwy o fanylder nag y mae ar hyn o bryd.</i>				
10.	<i>Mae'n rhaid i rifau swp a dyddiadau dod i ben yr holl feddyginiaeth sy'n cael ei gweinyddu i gleifion gael eu cofnodi'n llawn yn eu nodiadau.</i>				

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad:

7.